## Cyflwyno Cwestiynau i'r Awdurdod

## PROTOCOL

1. Bydd yr Awdurdod yn caniatáu 20 munud cyn cyfarfod o'r Awdurdod i aelodau o'r cyhoedd gael lleisio eu barn trwy ganiatáu iddynt, cyn belled a bod rhybudd yn cael ei roi ymlaen llaw, i holi cwestiynau a derbyn ateb.

2. Mae'n rhaid cyflwyno cwestiynau yn ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol 7 niwrnod cyn y cyfarfod

3. Gellir holi cwestiynau ar unrhyw bwnc sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

4. Dim ond un cwestiwn a ganiateir ar un pwnc.

5. Bydd y cyfarfod yn ymddwyn yn unol â disgresiwn y Cadeirydd ac ar ddisgresiwn y Cadeirydd y ceir y gwahoddiad i siarad neu, yn ei absenoldeb ef yn unol â disgresiwn yr Is Gadeirydd ac yn amodol â'r pwyntiau a nodir isod.

6. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr unigolyn i ofyn cwestiynau yn y cyfarfod. Dylai'r cwestiynau fod yn glir a chryno, a dylai fod yr un cwestiwn a yrrwyd yn ysgrifenedig. Ni chaniateir datganiadau. Yna fe fydd y Cadeirydd yn gofyn i aelod neu swyddog i ymateb. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd fe all yr unigolyn ofyn cwestiwn ychwanegol a gyfyd o'r ymateb a gafwyd.

7. Yr unigolyn fydd wedi rhoi'r cwestiwn ar y bwrdd fydd yn gofyn y cwestiwn fel rheol. Fodd bynnag fe all o neu hi enwebu person arall i ofyn y cwestiwn. Rhaid cael caniatâd y sawl sy'n cael ei enwebu ymlaen llaw.

8. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ateb y cwestiynau yn y cyfarfod. Os na ellir ateb y cwestiynau yn foddhaol yn y cyfarfod ac fe hysbysir yr unigolyn a gyrrir ymateb ysgrifenedig cynted â phosibl.

9. Ni ganiateir cwestiynau ar y materion canlynol:
   i. materion personol neu breifat
   ii. materion ariannol neu gyfreithiol cyfrinachol
   iii. materion yr ystyrir eu bod hwy yn hiliol neu'n athrodus
   iv. ceisiadau unigol cynllunio

10. Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol (Swyddog Monitro) fydd yn penderfynu os y caniateir unrhyw gwestiwn a'i peidio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu Is Gadeirydd yr Awdurdod.

11. Rhoddir eglurhad ysgrifenedig os na chaniateir cwestiynau.